
"Rwy'n falch fy mod wedi dewis mathemateg fel un o fy Safon Uwch. Mae yna gymysgedd o fathemateg gymhwysol a chyffredinol fel y gallwch chi weld pwrpas y gwaith a gallwch chi gymhwyso'ch gwybodaeth o'r holl bynciau gwahanol a gweld y cyfan yn dod at ei gilydd sy'n eithaf boddhaol. Mae hefyd yn gweithio'n dda gyda phynciau eraill fel y gwyddorau oherwydd gallwch chi ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â mathemateg yn gyflym ac yn hawdd."

Jasmine Blight






# Mathemateg

## Pam astudio Mathemateg?

Mae Mathemateg yn annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o fathemateg a phrosesau mathemategol mewn ffordd sy'n hyrwyddo hyder ac yn annog mwynhad. Mae'n annog dysgwyr i ddefnyddio mathemateg fel dull cyfathrebu effeithiol ac adnabod sut i gynrychioli sefyllfa'n fathemategol a deall y berthynas rhwng problemau'r 'byd real' a modelau safonol a modelau mathemategol eraill.

Mae Mathemateg yn bwnc i chi os oes gennych ddawn naturiol neu os oes gennych y cymhelliant a'r dyfalbarhad i lwyddo yn y maes heriol ond gwerth chweil yma.

## Gofynion y cwrs

Mae gradd uchel mewn TGAU, **isafswm gradd 'B'** yn yr **Haen Uwch Mathemateg**, yn hanfodol i ddilyn cwrs Mathemateg Lefel A.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1:** Mathemateg Bur A: Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 120 marc [25%]

**Uned 2:** Mathemateg Gymhwysol A: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 75 marc [15%]

Mae dwy adran i'r papur:

Adran A: Ystadegaeth (40 marc)

Adran B: Mecaneg (35 marc)

### Uwch

**Uned 3:** Mathemateg Bur B: Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 120 marc [35%]

.

**Uned 4:** Mathemateg Gymhwysol B: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 80 marc [25%]

Mae dwy adran i'r papur:

Adran A: Ystadegaeth (40 marc)

Adran B: Hafaliadau Differol a Mecaneg (40 marc)

## Cyfleoedd Gyrfaol:

Mae'r cwrs Safon uwch Mathemateg yn cael ei barchu'n fawr gan gyflogwyr a thiwtoriaid derbyn mewn prifysgolion, sy'n ei gwneud hi'n gymhwyster hynod o ddefnyddiol. Gyrfaoedd sy'n defnyddio Mathemateg: Cyfrifydd; Actiwari; Seryddwr; Peiriannydd; Economegydd; Athro; Meddyg.